**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** 16 Hydref 2018 | |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 31 Hydref 2018 |

---

**PWNC**

Eitem 6:CYNLLUN TWF AR GYFER ECONOMI GOGLEDD CYMRU: Y DDOGFEN GYNNIG

---

**PENDERFYNIAD**

Yn ddarostyngedig nad yw'r penderfyniad yn ymrwymo'r Cyngor i fuddsoddiad ariannol ar y pwynt hwn a bod y risgiau a buddion ariannol i'w ystyried yn llawn pan gaiff y Cynllun terfynol ei gyflwyno i'r Cyngor am gymeradwyaeth:

Fod y Cabinet yn cadarnhau'r Ddogfen Gynnig i'w chymeradwyo i'r Cyngor ei mabwysiadu fel:

1. Sail strategaeth ranbarthol tymor hwy ar gyfer twf economaidd
2. Cais rhanbarthol ar gyfer rhaglenni a'r prosiectau blaenoriaeth a ddefnyddir i ffurfio cynnwys Cynllun Twf ar y cam Penawdau'r Telerau gyda'r Llywodraeth.

Awdurdodi'r Arweinydd i ymrwymo'r Cyngor i Benawdau'r Telerau gyda'r Llywodraethau law yn llawn ag arweinyddion gwleidyddol a phroffesiynol o'r naw partner statudol arall a chynrychioli ar Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, a Chyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy, gyda'r Ddogfen Gynnig yn gosod y ffiniau ar gyfer y cytundeb Penawdau'r Telerau.

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Ym mis Medi 2018, bu i'r Cabinet gadarnhau cefnogaeth i'r model Cydbwyllgor ar gyfer y Cynllun Twf. Yn ychwanegol awdurdodwyd yr Arweinydd i fod yn gynrychiolydd y Cyngor ar y 'Cydbwyllgor Cysgodol' yn  y cyfnod interim. Ym mis Gorffennaf eleni, bu i'r Cabinet a'r Cyngor fabwysiadu Cytundeb Llywodraethu ar gyfer camau cynllunio a datblygu'r Cynllun Twf.

Mae'r Ddogfen Gynnig, a dderbyniwyd yn y Cabinet, yn nodi'r rhaglenni a'r prosiectau sydd yn cael eu hystyried gan y ddwy Lywodraeth i'w cynnwys mewn Cynllun Twf , ar y cam Penawdau'r Telerau. Mae'r rhanbarth a'r cynllun bellach ar fin cyrraedd Penawdau'r Telerau. Gofynnir i'r Partneriaid rhanbarthol i gadarnhau'r Ddogfen Gynnig er mwyn rhoi mandad i'w harweinyddion ymrwymo i Gytundeb Penawdau'r Telerau a fydd, yn dilyn hyn, yn gychwyn ar y cam terfynol o ddatblygu'r Cais a thrafod gyda'r Llywodraethau.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** 16 Hydref 2018 | |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 31 Hydref 2018 |

## PWNC

Eitem 7:COD GWIRFODDOL ARWYDDION AR OSOD BANGOR

## PENDERFYNIAD

Mabwysiadwyd y Cod Gwirfoddol ar gyfer rheolaeth o arwyddion ar osod ym Mangor a dirprwyo'r hawl i'r Uwch Reolwyr Gwasanaeth Cynllun a Gwarchod y Cyhoedd i roi trefniadau yn eu lle ar gyfer gweithredu'r Cod Gwirfoddol.

Bod llwyddiant y Cod Gwirfoddol yn cael ei fonitro a'i asesu cyn diwedd Mawrth 2020 a'r casgliadau'n cael eu hadrodd yn ôl i'r Cabinet cyn Medi 2020.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Mae pryderon wedi eu lleisio gan yr Aelod Cynulliad, Aelodau Lleol Cyngor Gwynedd, Cyngor Dinas Bangor a'r Heddlu ynglŷn â'r nifer o arwyddion 'Ar Osod' sydd ar dai sydd yn bennaf, ond nid yn angenrheidiol, yn dai ar gyfer darparu llety i fyfyrwyr.

Er mwyn ceisio ymateb i'r pryderon yma mae'r Cyngor wedi cysylltu ag amryw o'r asiantaethau gosod ac yn sgil hyn mae trafodaethau wedi eu cynnal er mwyn ceisio datrysiad i'r sefyllfa. Yn gyffredinol roedd cefnogaeth i sefydlu Cod Gwirfoddol ar gyfer gallu rheoli arwyddion ar osod o fewn ardaloedd penodol ym Mangor.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad

Ymgynghorwyd holl asiantau Perthnasol a rhan-ddeiliad perthnasol eraill yn ystod Hydref 2017, Ionawr 2018 a Mehefin 2018. Yn ychwanegol at hyn cafwyd ymgynghoriadau gyda'r Cynghorwyr Lleol ym Mangor yn ogystal â Chyngor Dinas Bangor yn ystod Hydref 2017 a Mehefin 2018.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** 16 Hydref 2018 | |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 31 Hydref 2018 |

**PWNC**

Eitem 8:STRATEGAETH RHANBARTHOL GOGLEDD CYMRU: TRAIS YN EDRBYN MENYWOD, TRAIS YN Y CARTREF A CAMDRINIAETH RHYWIOL

**PENDERFYNIAD**

Mabwysiadu Strategaeth Gogledd Cymru ar gyfer Trais yn Erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) yn ffurfiol fel un o'r awdurdodau cyfrifol a ddynodwyd dan ddeddfwriaeth.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mae Deddf Trais yn Erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar bob Awdurdod Lleol, Bwrdd Iechyd, Ymddiriedolaeth Ambiwlans Cymru a'r Gwasanaeth Tan ac Achub i weithredu'r ddeddfwriaeth hon.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** 16 Hydref 2018 | |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 31 Hydref 2018 |

## PWNC

Eitem 9:TREFNIADAU AR GYFER CYNNAL YR ADOLYGIAD RHEOLAETHOL

## PENDERFYNIAD

Derbyn y syniad fod y Cabinet yn eistedd mewn ar sesiynau herio y mae'r Prif Weithredwr yn bwriadu eu cynnal a'u bod yn cydsynio i'r syniad o wahodd Cadeiryddion ac Is Gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu (gan gynnwys y Pwyllgor Archwilio) i'r sesiynau hyn.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Yn ystod Cabinet 22 Mai eleni bu i'r Cabinet gomisiynu adolygiad ar gyfer sicrhau fod trefniadau rheolaethol yn addas at bwrpas yn y Cyngor. Fel rhan o'r adroddiad bydd y Prif Weithredwr yn cynnal sesiynau herio priodol a'r Penaethiaid Adran er mwy herio'r trefniadau presennol. Nodwyd fod angen sicrhau fod Aelodau'r Cabinet a Chadeiryddion ac is Gadeiryddion y Pwyllgor Craffu yn cael gwahoddiad i'r cyfarfodydd yma er mwyn derbyn eu barn cyn llunio ei argymhellion.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** 16 Hydref 2018 | |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 31 Hydref 2018 |

## PWNC

Eitem 10:YMGYNGHORIAETH YR AWDURDOD TAN

## PENDERFYNIAD

Bu i'r Cabinet adnabod egwyddorion ar gyfer ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus gan Awdurdod Tan ac Achub Gogledd Cymru, a phenderfynwyd y bydd yr Arweinydd a'r Prif Weithredwr yn llunio ymateb llawn i'r ymgynghoriad o fewn yr amserlen.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Mae'r Awdurdod Tan ac Achub Gogledd Cymru yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus er mwyn derbyn barn am ariannu gwasanaethau tan ac achub yn 2019/20. Mae gofyn i ymateb erbyn 2 Tachwedd 2018.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Derbyniwyd datganiad o fuddiant gan Cyng. W Gareth Roberts gan fod ei gwr yn gweithio fel Dyn Tan i'r Awdurdod Tan

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** 16 Hydref 2018 | |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 31 Hydref 2018 |

## PWNC

Eitem 11:ADRODDIAD PERFFORIMAD AELOD CABINET DROS ADDYSG

## PENDERFYNIAD

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad effeithiol a thryloyw mae gofyn i Aelod Cabinet adrodd ar berfformiad y maes y mae'n gyfrifol amdano i'r Cabinet yn gyfnodol.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, a gadarnhawyd nad oedd dim i'w ychwanegu.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** 16 Hydref 2018 | |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 31 Hydref 2018 |

---

## PWNC

Eitem 12:ADRODDIAD PERFFORMIAD AELOD CABINET DROS DAI, DIWYLLIANT A HAMDDEN

---

## PENDERFYNIAD

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

Cymeradwyo i ail-broffilio arbedion cyfleusterau hamdden am swm o £157k oherwydd na fydd yr arbedion yn cael ei gyflawni yn 2018-19 gan nad yw Cwmni Byw'n Iach yn weithredol tan Ebrill 1af 2019.

---

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad effeithiol a thryloyw mae gofyn i Aelod Cabinet adrodd ar berfformiad y maes y mae'n gyfrifol amdano i'r Cabinet yn gyfnodol

---

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

---

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, a gadarnhawyd nad oedd dim i'w ychwanegu.

---

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** 16 Hydref 2018 | |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 31 Hydref 2018 |

## PWNC

Eitem 13:CYLLIDEB REFENIW 2018/19 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST

## PENDERFYNIAD

- Derbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd Awst 2018 o'r Gyllideb Refeniw, ac ystyried y sefyllfa ariannol ddiweddaraf parthed cyllidebau pob adran / gwasanaeth.
- Gofyn i'r Aelodau Cabinet ar gyfer gwasanaethau Plant, Addysg a Phriffyrdd a Bwrdeistrefol sicrhau fod yna gynllun gweithredu clir gan yr adrannau i gymryd camau i leihau'r diffyg ariannol ac i drafod y cynlluniau hynny gyda mi er mwyn cael hyder eu bod yn rhesymol.
- Digolledu'r Adran Economi a Chymuned £40k sef y golled incwm yn dilyn cau pwll nofio Arfon dros yr haf.
- Cynaeafu (£1,904) o'r tanwariant net ar gyllidebau Corfforaethol, gyda (£40k) i'w defnyddio i ddigolledu'r Adran Economi a Chymuned am y golled incwm tra bu Pwll Nofio Arfon ar gau. Gyda'r gweddill sef (£1,864) i'w drosglwyddo i Gronfa Cynorthwyo'r Strategaeth Ariannol i gynorthwyo gyda phwysau anochel un tro ar gyllidebau'r Cyngor.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Cyfrifoldeb y Cabinet yw cymryd camau, fel bo angen, er mwyn sicrhau rheolaeth briodol dros gyllidebau'r Cyngor (e.e. cymeradwyo trosglwyddiadau sylweddol neu gyllideb ychwanegol).

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** 16 Hydref 2018 | |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 31 Hydref 2018 |

---

**PWNC**

Eitem 14:RHAGLEN GYFALAF 2018/19 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST

---

**PENDERFYNIAD**

Derbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd Awst (sefyllfa 31 Awst 2018) o'r rhaglen gyfalaf, a chymeradwyo'r ariannu addasedig a gyflwynir yn rhan 4 o'r adroddiad, sef:

- £8,444,000 mewn amryw ffynonellau i ariannu gwir lithriadau o 2017/18
- £10,000 cynnydd mewn defnydd o fenthyca
- £10,988,000 cynnydd mewn defnydd o grantiau a chyfraniadau
- £789,000 cynnydd mewn defnydd o dderbyniadau cyfalaf
- £187,000 cynnydd mewn defnydd o gyfraniadau refeniw
- £4,859,000 cynnydd mewn defnydd o gronfeydd adnewyddu ac eraill.

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Cyfrifoldeb y Cabinet yw cymryd camau, fel bo angen, er mwyn sicrhau rheolaeth briodol dros gyllidebau'r Cyngor (e.e. cymeradwyo trosglwyddiadau sylweddol neu gyllideb ychwanegol).

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad

---

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** 16 Hydref 2018 | |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 31 Hydref 2018 |

**PWNC**

Eitem 15:TROSOLWG ARBEDION 2018/19 - ADRODDIAD CYNYDD AR WIREDDU CYNLLUNIAU ARBEDION

**PENDERFYNIAD**

Derbyn yr adroddiad a nodi'r cynnydd calonogol tuag at wireddu cynlluniau arbedion 2018/19 a blynyddoedd blaenorol.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Yn strategaeth ariannol y Cyngor ers 2015/16, mae gwerth £27m o arbedion wedi eu cymeradwyo i'w gwireddu yn ystod y cyfnod 2015/16 i 2018/19.

Mae gwireddu'r cynlluniau unigol yn gyfrifoldeb aelodau perthnasol o'r Cabinet, ac mae adroddiadau perfformiad yr Aelodau, sy'n cael eu cyflwyno yn rheolaidd i gyfarfodydd y Cabinet, yn manylu ar gynnydd y cynlluniau arbedion unigol o fewn eu portffolios, fel y bo'r sefyllfa ar y pryd. Cyfrifoldeb yr Aelod Cabinet dros Gyllid yw cadw trosolwg o'r darlun cyfan.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** 16 Hydref 2018 | |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 31 Hydref 2018 |

## PWNC

Eitem 16:BLAEN RAGLEN Y CABINET

## PENDERFYNIAD

Cymeradwyo'r Flaen raglen a gynhwyswyd yn y papurau i'r cyfarfod.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Yn unol ag Adran 14.13 o Gyfansoddiad y Cyngor, bydd y Cabinet yn rhannu ei Flaen Raglen waith am y cyfnod dilynol o chwe mis gyda'r cyhoedd. Bydd y Flaen Raglen yn cael ei chyhoeddi ar wefan y Cyngor.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad